# Cadw

# Croeso i Lys yr Esgob, Tyddewi

Cartref moethus un o esgobion Cymru

## Beth i'w weld yn Llys yr Esgob, Tyddewi


1. Mynedfa/siop.
2. Dringwch risiau troellog bloc y toiledau yn ofalus — bydd yn werth yr ymdrech pan welwch y golygfeydd gwych dros y cwrt a'r gadeirlan y tu hwnt iddo.
3. Dewch i mewn trwy gyntedd y Neuadd Fawr fel y gwnâi'r bobl bwysig. Cafodd ei addurno'n gywrain i greu argraff ar ymwelwyr. Credir mai cerfluniau o'r Brenin Edward III a'r Frenhines Philippa sydd uwchben y fynedfa.
4. Rhyfeddwch at ffenest ysblennydd y Neuadd Fawr sydd ar ffurf olwyn. Cafodd ei cherfio o Garreg Caerfaddon ac mae ei phatrwm cywrain yn taflu rhagor o oleuni ar harddwch y llys canoloesol hwn.
5. Chwiliwch am wynebau cerfiedig crefftus yn ystafelloedd yr Esgob ac am y creaduriaid rhyfedd a rhyfeddol yn y cwrt — diolch i waith medrus seiri meini'r Oesoedd Canol.
6. Codwch eich pen i weld y bwâu cywrain neu'r 'parapetau bwaog' ar hyd brig y waliau. Roedd yr Esgob Henry de Gower yn hoff o'r rhain ac fe welwch rai tebyg yn ei lys yn Llandyfâi hefyd.
7. Cewch flas ar fywyd y gweision a'r morynion wrth grwydro'r islawr tywyll; mae'n dipyn o ddrysfa — peidiwch â mynd ar goll!

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadw.llyw.cymru

Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 131 o safleoedd hanesyddol

Mae'r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha'r modd, does dim dreigiau'n byw yma, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?




### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.

Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.